# Ymateb CLlLC & Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru i Ymchwiliad y Senedd i Addysg Cyfrwng Cymraeg (Medi 2022)

**1. Ym mis Rhagfyr 2015, cyhoeddodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Bedwaredd Senedd argymhellion yn ei adroddiad ar 'Ymchwiliad i GSCA'. A yw'r fframwaith statudol presennol ar gyfer CSCA wedi gwella ers hynny?**

Meysydd sydd wedi gwella

- Canllawiau mwy clir wedi ei gyhoeddi i gynorthwyo datblygu'r CSCA.
- Targedau mwy realistig a phenodol.
- Cynghorau yn gefnogol o'r cyfle i gynllunio dros ddegawd, amser i ragweld a goresgyn heriau mwy hir dymor. Llai o faich cynllunio.
- Mae cynghorau hefyd yn werthfawrogol o'r cydweithio sydd wedi digwydd gyda Llywodraeth Cymru fel rhan o'r broses o ddatblygu'r cynlluniau newydd yma. Datblygwyd perthynas gweithio da a phrosesau trylwyr a chefnogol, yn cynnwys cyfres o sesiynau trafod defnyddiol ar gyfer swyddogion.

Meysydd i'w datblygu

- Dylid sicrhau bod y ffrydiau ariannu a'r canllawiau cysylltiedig yn alinio gyda fframwaith a deddfwriaeth Llywodraeth Cymru a'u llinell amser ar gyfer y CSCA. Byddai hyn yn helpu cynllunio ar gyfer yr hir dymor ac yn lleihau unrhyw ansicrwydd.
- Mae hefyd angen mwy o eglurdeb ynghylch y ffynonellau ariannol a'r mecanwaith ariannol sydd ar gael i weithredu'r CSCA gan fod gormod o amwysedd o ran y grantiau gwahanol a sut yn gwmws mae'n cael ei ddefnyddio i gefnogi'r Gymraeg mewn Addysg. Dylid ystyried sut mae ariannu yn dilyn uchelgais CSCA e.e ariannu ysgolion T2 a T3 yn benodol am gyfnod o amser i wireddu'r newid.
- Gan taw cynghorau sydd â'r cyfrifoldeb dylai fwy o'r arian fynd yn uniongyrchol i gefnogi strategaethau cynghorau. Yn gysylltiedig â hyn, dydy gweithio drwy fodel rhanbarthol ddim o angenrheidrwydd yn cwrdd ag anghenion CSCA cynghorau yn yr un ffordd a meysydd gwaith addysg eraill oherwydd y cyd-destunau ieithyddol amrywiol. Rhaid felly ystyried sut y gellir cryfhau a chefnogi y cydweithio rhwng awdurdodau sy'n fwy tebyg yn ieithyddol a sicrhau digon o hyblygrwydd i alluogi hyn hyd yn oed os ydynt o fewn rhanbarthau gwahanol. Er enghraifft cydweithio rhwng siroedd gwledig/ siroedd gyda niferoedd tebyg o rhan siaradwyr Cymraeg, neu cydweithio/partneriaethau rhwng siroedd sy'n wynebu heriau tebyg, e.e. yr her o hyrwyddo addysg Gymraeg yn ardaloedd sy'n ffinio Lloegr.
- Dylid gwella'r mesurau casglu data er mwyn cael data amserol a dibynadwy i fedru cynllunio yn fwy effeithiol, dyma enghreifftiau o rhai heriau gyda data Cyfrifiad Blynyddol Gweithlu Ysgolion (CBGY) yn benodol:
  - i) mae'r data'n cael ei rhyddhau'n swyddogol tua diwedd y flwyddyn academaidd ond yn cael ei gasglu'n yr Hydref.

ii) does dim digon o gwestiynau'n gysylltiedig â sgiliau iaith, mae'n bosib ei dehongli yn wahanol ac maent yn ddibynnol ar hunan-asesiad athrawon o'u sgiliau iaith.

iii) byddai'n ddefnyddiol cael data ar cwestiynau mwy penodol er mwyn gallu targedu ymyraethau/cefnogaeth priodol e.e. pa mor ddibynadwy yw'r hunan werthusiad o lefelau hyder pan gall athrawon fod yn hyderus iawn ar lafar ond ddim yn gwbl hyderus yn ysgrifenedig, beth yw'r pwysoliad wrth ateb un cwestiwn ar hyder?

iv) dydy'r gweithlu meithrin ddim yn cael ei gynrychioli yn y CBGY

- Nodwyd hefyd pwysigrwydd casglu data cymharol o'r Gymraeg a deall sut mae cynghorau yn cofnodi a chyflwyno data er mwyn tegwch, er enghraifft yn rhai siroedd mae'r data iaith yn cynnwys carfannau llawn, dydy eraill ddim, sy'n effeithio ar sut mae canrannau'n cael ei gynrychioli. Byddai canllawiau ar hyn yn sicrhau ein bod yn gwneud cymariaethau cenedlaethol teg.
- Byddai mesur gwelliannau yn haws a fwy dibynadwy petai yna un continwwm iaith dros Gymru.
- Mae cynghorau hefyd wedi rhannu adborth ar sut y mae'r ymgysylltiad gyda phartneriaid yn amrywio – byddai mwy o eglurer o Lywodraeth Cymru yn ddefnyddiol ar sut gallai partneriaid gefnogi gweithredu y CSCA. Yn ogystal â hyn byddai'n ddefnyddiol iawn gallu deall sut mae'r ystod o bartneriaid yn cael ei ariannu a'r disgwyliadau sy'n cael eu gosod arnynt fel rhan o'u cyllid i gefnogi y CSCA. Dylid nodi yn amodau grantiau bod angen i bartneriaid weithio gyda cynghorau i gefnogi cynlluniau er mwyn cyrraedd y targedau uchelgeisiol. Byddai hyn yn ddefnyddiol iawn o rhan cefnogi deilliant 5 er mwyn helpu creu mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol (a thu hwnt).
- Dylid prif ffrydio'r Gymraeg o fewn adran addysg Llywodraeth Cymru fel bod pob is-adran addysg (e.e. cwricwlwm/ADY/dysgu proffesiynol) yn cefnogi gweithredu'r cynlluniau a chynnig cysondeb rhwng y gwaith pwysig yma, yn enwedig lle mae grantiau ychwanegol yn cael ei ddarparu o wahanol adrannau.
- Bydd angen mwy o ganllawiau ar y camau nesaf a disgwyliadau CSCA. Byddai cymorth ac arweiniad parhaus gan Lywodraeth Cymru, a gweithdai ychwanegol yn fuddiol.

## 2. I ba raddau y mae'r CSCA yn cyfrannu at y canlyniadau a'r targedau a nodir yn Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg – Cymraeg 2050;

- Ar y cyfan mae cynghorau'n cytuno bod y targedau yn cefnogi Cymraeg 2050 a bod y disgwyliadau yn glir ar gyfer cynyddu darpariaeth addysg Gymraeg drwy'r CSCA.
- Bydd angen un continwwm iaith ar fyrder i sicrhau bod cysondeb a throthwyon tebyg cenedlaethol i arfarnu cynnydd yn y Gymraeg. Byddai un continwwm yn sicrhau bod adnoddau a gyhoeddir yn y dyfodol ac ystod o ddysgu proffesiynol wedi'i alinio yn erbyn yr un fframwaith.

Meysydd i'w datblygu

- Byddai'r gwaith lleol a rhanbarthol yn cael ei atgyfnerthu petai strategaethau cenedlaethol yn ei le yn gysylltiedig a gwaith consortia gyda dysgu proffesiynol a'r siarter iaith e.e dylai Canolfannau Iaith fod yn perthyn i un rhwydwaith genedlaethol er mwyn rhannu arferion llwyddiannus ac adnoddau. Mae hyn yn bwysig iawn o rhan sicrhau cysondeb dysgu proffesiynol.
- Dylid gwneud mwy o rhan gosod 'gofyniad cenedlaethol' ar gyfer cynllunio y cyfnod yn dilyn addysg statudol, e.e. addysg uwch, busnesau, cymunedau fel all ddysgwyr barhau i ddefnyddio'u sgiliau iaith, perygl bod rhain yn diflannu ar ôl gadael ysgol. Yn unol â'r adborth i gwestiwn 1, byddai un continwwm iaith yn cefnogi hyn, yn cefnogi'r syniad o ddysgu gydol oes ac yn hybu strategaethau i gynyddu 'Cymraeg i oedolion'.
- Yn genedlaethol, mae angen canolbwyntio mwy ar yr heriau sy'n wynebu ysgolion cyfrwng Saesneg o ran gallu ymateb i'r uchelgais cyffredinol. Dylid hefyd ffocysu ar yr elfen ddiwylliannol fel bod pawb yn teimlo bod yr iaith yn perthyn iddynt a nad ydy Cymreictod yn unigryw i'r sector cyfrwng Cymraeg.
- Dylid gosod gofyniad cenedlaethol i gael cymhwyster cydnabyddedig yn Gymraeg i addysgu yng Nghymru er mwyn helpu delio gyda heriau cynllunio'r gweithlu a recriwtio staff sy'n medru siarad Cymraeg.

3. **Sut mae awdurdodau lleol yn ymateb i newidiadau i ganllawiau ar gategorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ac a ydynt yn bodloni uchelgais Llywodraeth Cymru i gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwy ffrwd?**

- Drwy eu CSCA mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i'w targedau 10 mlynedd uchelgeisiol o gynyddu'r darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.
- Mae cynghorau yn anelu i gytuno categorïau newydd gydag ysgolion o Fedi 2022 ymlaen a rhai cynghorau eisoes wedi symud pob ysgol ar hyd y continwwm iaith yn nhymor yr haf.
- Mae angen cymorth pellach ar gynghorau er mwyn ymateb i'r newidiadau i'r canllawiau ar gategorïau ysgolion yn enwedig gyda'r costau ychwanegol sydd yn gysylltiedig a'r gwaith trosiannol yma e.e. costau tiwtora, amser rhyddhau staff, costau gweinyddol. Dylai Llywodraeth Cymru ddadansoddi lle ddylai'r pecynnau arian ychwanegol yma fynd i helpu ysgolion symud drwy'r categorïau yma yn llwyddiannus. Mae angen addewid ariannu am oleuaf 5 mlynedd i rhoi sicrwydd i ysgolion sy'n cychwyn ar y daith yma.
- Byddai hefyd sefydlu a gweithredu pecyn cymorth i ysgolion sy'n eu cefnogi i symud o un categori iaith i'r nesaf yn ddefnyddiol iawn, gan rannu'r hyn a fu'n arfer mwyaf effeithiol lle bu newid yn y categori.

4. **Pa heriau a fydd yn codi o ran cynllunio a datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cyn Bil Addysg Gymraeg arfaethedig?**

- Sicrhau staffio priodol ar bob lefel (awdurdodau lleol, athrawon, staff cynorthwyol, arweinwyr) mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Mae'n hanfodol cynyddu ar frys nifer yr athrawon a'r staff cymorth sy'n ymuno â'r proffesiwn, sy'n aros yn y proffesiwn ac sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Bydd angen cyllid drwy’r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy *(yn gynt y Rhaglen Ysgolion a Cholegau’r 21ain Ganrif)* er mwyn cyfrannu at y targedau uchelgeisiol.
- Mae y rhaglen/cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer staff yn amrywio’n sylweddol ar hyn o bryd. Gellid cryfhau'r ddarpariaeth ymhellach pe bai ar gael yn genedlaethol. Byddai hyn yn sicrhau mwy o gysondeb.
- Dylid datblygu rhwydwaith/fforwm cenedlaethol sy’n cefnogi’r gwaith ar ‘ddarpariaeth trochi hwyr yn y Gymraeg’ er mwyn cael yr effaith gorau posib. Byddai cydweithio cenedlaethol dan un faner yn helpu canolfannau iaith i ddatblygu methodoleg ac adnoddau cyson, gwella datblygu proffesiynol a chryfhau’r darpariaeth i bawb.
- Rhaid hefyd sicrhau fod yna gydraddoldeb gyda’r sector cyfrwng Saesneg yn y darpariaeth sy'n cael ei gynnig i ddisgyblion ag ADY, a cynllun i ddatblygu arbenigedd staff.
- Dylid ehangu’r cyfleodd i ddefnyddio’r iaith ar ôl ysgol. Mae hyn yn agwedd hanfodol o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg sydd yn defnyddio’r iaith o ddydd i ddydd. Mae angen gweithio gyda cyflogwyr a darparwyr ôl-16 fel bod eu gwaith nhw yn cefnogi ymdrechion y CSCA. Mae hefyd angen mwy o farchnata a hyrwyddo manteision y Gymraeg yn genedlaethol i annog rhieni a disgyblion i ymgysylltu a’r iaith.
- Mae angen cryfhau’r cydlyniad strategol cenedlaethol o ran y Gymraeg, er mwyn sicrhau bod rhaglen weithredu genedlaethol eglur a thryloyw, gyda CSCA cynghorau yn cyfrannu at y rhaglen weithredu honno.